






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

23 Rhagfyr 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

23 Rhagfyr 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae amrywiolyn newydd o'r coronafeirws wedi'i ganfod yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr amrywiolyn newydd yn trosglwyddo'n haws, er nad oes tystiolaeth ei fod yn achosi clefyd mwy difrifol. Mae'r holl ganllawiau cyfredol ynghylch symptomau, cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu a brechu yn berthnasol i'r amrywiolyn newydd. Mae'r Grŵp Cyngor Technegol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio fel rhan o ymchwiliad y DU i ddeall y goblygiadau'n well ac ystyried ymateb priodol. Mae crynodeb technegol ar wahân ar yr amrywiolyn newydd ar gael [yma](#).
- Yr amcangyfrif diweddaraf gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) (ar 16 a 22 Rhagfyr 2020) o'r rhif Atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru yw ei fod rhwng 1.0 ac 1.3, gyda'r epidemig yn cynyddu rhwng 1% a 4% y dydd. Mae'r gwerthoedd hyn wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf. Dylid nodi y gallai'r ffigurau hyn fod yn amcangyfrif rhy isel oherwydd y gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ar System Rheoli Gwybodaeth Labordai GIG Cymru a arweiniodd at oedi wrth adrodd am 11,000 o brofion positif.
- Amcangyfrifir mai 1.2 (23 Rhagfyr 2020) yw'r gwerth R_t , ac amcangyfrifir mai 19.1 diwrnod yw'r amser dyblu. Fel uchod, er bod y ffigur hwn yn cynnwys yr achosion a oedd wedi ôl-gronni, oherwydd y gwaith cynnal a chadw cynlluniedig ar y system, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer yr wythnos hon, yn ogystal â newidiadau tymor byr yn fwy cyffredinol.
- Ar 15 Rhagfyr, mae achosion o COVID-19 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru wedi parhau i gynyddu ers ein hadroddiad diwethaf ac mae positifedd profion COVID-19 (y gyfran o gyfanswm y profion a ddychwelwyd yn positif) yn uwch na throthwy'r dangosydd sbardun coch, ar 23%.
- Ar 17 Rhagfyr, mae nifer y bobl yn yr ysbyty â COVID-19 wedi'i gadarnhau wedi cynyddu 19% ers yr wythnos ddiwethaf, gan barhau'n uwch nag uchafbwynt mis Ebrill ac yn uwch na throthwy'r dangosydd sbardun coch. Yn gyffredinol, mae'r defnydd gwelyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion heb COVID-19) hefyd yn parhau'n uwch na throthwy'r dangosydd sbardun coch. Mae data'n dangos bod capasiti defnydd unedau gofal dwys ar 100% neu'n agos at 100%, ac nad yw cymhareb staffio 1:1 ar gyfer cleifion mewn unedau gofal dwys yn bosibl yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd Cymru.
- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru sy'n gysylltiedig â symptomau COVID-19 posibl, ymgynghoriadau â meddygon teulu ar gyfer

heintiau anadlol ac achosion posibl o COVID-19 a nifer y galwadau am ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19, wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Fel yr adroddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, bu cynnydd yn nifer y marwolaethau yr wythnos hon mewn ysbytai yn sgil achosion a gadarnhawyd. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Rhagfyr 2020, mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (sydd ychydig y tu ôl i ddata lechyd Cyhoeddus Cymru ond sy'n fwy cyflawn) yn dangos bod nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â COVID-19 wedi cynyddu o 207 o farwolaethau (Wythnos 49) i 223 o farwolaethau (Wythnos 50), tra mae cyfanswm y marwolaethau yn Wythnos 50 yn 121 o farwolaethau yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.
- Mae data arolwg heintiau'r SYG yn awgrymu bod positifedd profion wedi cynyddu yn yr wythnos ddiweddaraf (06 Tachwedd a 12 Rhagfyr), ar ôl disgyn o uchafbwynt ddiwedd mis Hydref. Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.
- Mae'r data symudedd diweddaraf yn dangos gostyngiadau yng Nghymru o gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae symudedd wedi lleihau ers cyflwyno'r cyfyngiadau ychwanegol ar letygarwch, cau lleoliadau adloniant ac atyniadau twristiaeth o dan do o 4 Rhagfyr ymlaen. Gall gostyngiadau pellach o 14 Rhagfyr ymlaen hefyd fod o ganlyniad i drefniadau dysgu o bell ar gyfer llawer o fyfyrwyr/disgyblion. Mae data Facebook a Google yn dangos bod pobl yn treulio'r amser mwyaf gartref ers mis Gorffennaf (ac eithrio'r cyfnod atal byr) (hyder uchel).
- Mae'r papurau canlynol wedi'u cyhoeddi gan y Grŵp Cyngor Technegol:
 - [Papur](#) modelu polisi ar gyfer mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021 sy'n amlinellu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, a'r sefyllfa bosibl, yn sgil gwahanol ddulliau gweithredu.
 - [Datganiad consensws](#) wedi'i ddiweddarau ar y meini prawf profi a argymhellir ar gyfer rhyddhau cleifion asymptomatig i gartrefi gofal.
- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol [yma](#).

Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu

- Mae SAGE yn amcangyfrif (ar 16 ac 22 Rhagfyr 2020) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng 0.01 a 0.04 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn lleihau/cynyddu rhwng +1% a +4% y dydd.


- Yr amcangyfrif diweddaraf gan SAGE (ar 16 ac 22 Rhagfyr 2020) o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru yw ei fod rhwng 1.0 ac 1.3. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae gwerth consensws SAGE ar gyfer R_t yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o fodelau sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau, a data arolygon cyswllt. Mae gan lawer o'r dangosyddion hyn gyfnod oedi o 1-3 wythnos o'r adeg pan fyddent yn nodi newid mewn heintiau.
- Fel y nodwyd eisoes, gallai'r ffigurau hyn fod yn amcangyfrif rhy isel ar gyfer Cymru oherwydd y gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar System Rheoli Gwybodaeth Labordai GIG Cymru ac a arweiniodd at oedi wrth adrodd am 11,000 o brofion positif.
- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif R_t ar gyfer Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Er bod y ffigur hwn yn cynnwys yr achosion a oedd wedi ôl-gronni, oherwydd y gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar y system, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer yr wythnos hon, yn ogystal â newidiadau tymor byr yn fwy cyffredinol.
- Ar 23 Rhagfyr 2020, amcangyfrifir bod R_t yng Nghymru yn 1.2 (cyfwng hyder o 95% 1.18 – 1.21).
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon ynghylch R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, graddfa'r profion sydd ar gael a – gan fod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiau – y modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn dal i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

Amser dyblu

- Ar 22 Rhagfyr 2020, amcangyfrifodd lechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'r amser dyblu (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion ddyblu) yn 19.1 diwrnod gan ddefnyddio data rhwng 05/12/2020 a 18/12/2020.
- Mae amser dyblu (ac R_t a chyfraddau twf) yn rhoi syniad o'r gyfradd newid ac felly dylid ei drin gyda gofal am y rhesymau a nodir uchod.

Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r map isod yn dangos cyfartaledd y gyfradd hysbysu achosion am bob 100,000 o bobl yn yr UE mewn cyfnod o 14 diwrnod yn wythnosau 49-50.




- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data, ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael [yma](#).

Canlyniadau astudiaeth heintiau'r SYG

- Mae data arolwg heintiau'r SYG yn awgrymu bod positifedd profion wedi cynyddu yn yr wythnos ddiweddaraf (06 Tachwedd a 12 Rhagfyr), ar ôl disgyn o uchafbwynt ddiwedd mis Hydref.
- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai hwy yw'r unig amcangyfrifon o heintiau sy'n cynnwys achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nad yw ffactorau eraill fel capasiti profi neu nifer y bobl sy'n dod i gael eu profi yn effeithio arnynt. Canlyniadau ar gyfer aelwydydd preifat yn unig yw'r rhain – y 'boblogaeth gymunedol' – ac nid ydynt yn berthnasol i bobl mewn ysbytai, cartrefi gofal na lleoliadau sefydliadol eraill.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 1 Tachwedd 2020 ar draws pedair gwlad y DU.


- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon pwyntiau unigol ar gyfer y gwledydd. Ceir mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinellau toredig yn y siart isod.



- Ar gyfer yr wythnos 06 i 12 Rhagfyr, roedd gan gyfartaledd o 1.10% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.78% i 1.46%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 90 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 130 i 1 o bob 70), neu 33,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 23,800 i 44,300).
- Mae'r gyfradd positifedd wedi cynyddu yn yr wythnosau diwethaf, ar ôl disgyn o uchafbwynt ddiwedd mis Hydref.
- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.
- Cyhoeddir y canlyniadau llawn [yma](#).

Nifer yr achosion

- Mae'r Ffigur isod yn dangos bod nifer yr achosion o COVID-19 y dydd a gadarnhawyd (swm treigl o 7 diwrnod am bob 100,000 o'r boblogaeth) wedi bod yn gostwng, ond dilynwyd hyn gan gynydd mewn achosion.




- Oherwydd gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar y system, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer yr wythnos sy'n cynnwys 11 a 12 Rhagfyr, yn ogystal â newidiadau tymor byr yn fwy cyffredinol.

Ffynhonnell: Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 15 Rhagfyr 2020

Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd am bob 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu'r sampl a grŵp oedran.
- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 17 Rhagfyr, cynyddodd digwyddedd ym mhob grŵp oedran, gyda digwyddedd ar ei fwyaf ymhlith pobl 18-44 mlwydd oed.



Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 21/12/2020


Marwolaethau

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y marwolaethau COVID-19 dros gyfnod treigl o 7 diwrnod a gofnodwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, fel ag yr oeddent ar 15 Rhagfyr 2020, gan ddangos cynnydd diweddar.



Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar 18/12/2020

- Mae'n bwysig nodi bod y data hyn yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau drwy brawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu drigolion Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.
- Mae'r SYG yn adrodd ar farwolaethau COVID-19 a amheuir ac a gadarnhawyd gan ddefnyddio data sydd ar gael ar ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er ei fod yn destun oedi, mae'n fwy cyflawn.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos data SYG ar gyfer nifer y marwolaethau a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru rhwng 28 Rhagfyr 2019 ac 11 Rhagfyr 2020, gan ddangos arwyddion o ostyngiad. Mae'r Ffigur hwn hefyd yn dangos nifer y marwolaethau a gofrestrwyd fesul wythnos yn sgil pob achos.




- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau a oedd yn ymwneud â COVID-19 o 207 o farwolaethau (Wythnos 49) i 223 o farwolaethau (Wythnos 50), tra oedd cyfanswm y marwolaethau yn Wythnos 50 yn 121 o farwolaethau yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.
- O'r marwolaethau a gofrestrwyd yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Rhagfyr 2020, roedd 223 o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 wedi'u cofrestru dros dro ymhlith trigolion Cymru. Roedd hyn 27% o'r holl farwolaethau ac 16 yn fwy na'r wythnos flaenorol.
- Mae'r niferoedd yn debygol o amrywio ac ni ddylid gorddehongli'r gostyngiad bach iawn ar gyfer y pythefnos diweddaraf.

Data ffynhonnell: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI](#) ar gyfer y cyfnod 4-7 Rhagfyr yng Nghymru yn dangos gostyngiadau pellach mewn rhai categorïau ers yr arolwg blaenorol. Roedd gostyngiadau yn nifer y bobl a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithio nad yw'n hanfodol, o gymharu â phythefnos yn ôl. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r

camau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 30 Tachwedd – 6 Rhagfyr yn dangos bod 36% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau presennol yng Nghymru yn 'dda iawn'. Dywedodd 50% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 39% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws 'yn llwyr' a 50% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif ohonynt. Mae'r ganran a ddywedodd eu bod yn cydymffurfio 'yn llwyr' yn is na'r arolwg diwethaf (47%). Dywedodd 35% fod pobl y tu allan i'w cartref/aelwyd estynedig a ganiateir wedi dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 21% eu bod wedi bod i mewn i dai pobl eraill.

Symudedd

- Mae'r data symudedd diweddaraf yn dangos gostyngiadau yng Nghymru o gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae symudedd wedi lleihau ers cyflwyno'r cyfyngiadau ychwanegol ar letygarwch, cau lleoliadau adloniant ac atyniadau twristiaeth o dan do o 4 Rhagfyr ymlaen. Gall gostyngiadau pellach o 14 Rhagfyr ymlaen hefyd fod o ganlyniad i drefniadau dysgu o bell ar gyfer llawer o

fyfyrwyr/disgyblion. Mae data Facebook a Google yn dangos bod pobl yn treulio'r amser mwyaf gartref ers mis Gorffennaf (ac eithrio'r cyfnod atal byr) (hyder uchel).

- Mae symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod symudedd 15% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 19 Rhagfyr. Mae hyn wedi gostwng o 11% yn yr wythnos flaenorol. Roedd canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle'r oeddent (yn agos at eu cartrefi) yn 29%, sy'n uwch na'r wythnos flaenorol (27%). Ar wahân i'r cyfnod atal byr, y tro diwethaf i'r ganran o ddefnyddwyr a oedd yn aros lle'r oeddent fod yn uwch oedd ganol mis Gorffennaf. Y llinell sylfaen yw'r gwerth cyfartalog ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod o 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror 2020
- Mae [data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 19 Rhagfyr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi lleihau o'r wythnos flaenorol i 90% o'r llinell sylfaen (o 92%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yn debyg i'r cyfnod cyn y cyfnod atal byr (89%). Mae'r ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a'r ceisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus wedi lleihau o'r hyn yr oeddent yr wythnos ddiwethaf o gymharu â'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 15 Rhagfyr yn dangos cynnydd yn y data preswyl (h.y. pobl yn treulio amser gartref) o gymharu â'r wythnos flaenorol, ar 10% yn uwch na'r llinell sylfaen. Fel gyda data Facebook, ar wahân i'r cyfnod atal byr, dyma'r uchaf ers mis Gorffennaf. Mae gweithleoedd yn dangos gostyngiad (ar 27% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o 24%). Mae manwerthu a hamdden yn dangos gostyngiad pellach yn ystod yr wythnos ddiwethaf (28% yn is na'r llinell sylfaen, i lawr o 22% yn yr wythnos flaenorol), tra mae archfarchnadoedd a fferylliaeth yn dangos cynnydd bach (2% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 3%). Mae trafndiaeth gyhoeddus a pharciau hefyd yn dangos gostyngiadau o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod o 5 wythnos rhwng 3 Ionawr a 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Mae data ffonau symudol dienw a chyfanredol gan gwmni O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 11 Rhagfyr yn dangos gostyngiad mewn teithiau o gymharu â'r wythnos flaenorol. Gwnaeth teithiau sy'n dechrau yng Nghymru ostwng 3 phwynt canran i 30% yn is na'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 8965 o gleifion o Gymru wedi cael eu recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, cynnydd o 886 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Gwylidwriaeth wythnosol COVID-19 a chrynodeb epidemiolegol iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 17 Rhagfyr 2020


Oherwydd y gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd ar y system, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer yr wythnos hon, yn ogystal â newidiadau tymor byr yn fwy cyffredinol.

- Cynyddodd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru yn gysylltiedig â symptomau COVID-19 posibl o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Yn gyffredinol, mae ymgynghoriadau â meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt ac ymgynghoriadau â meddygon teulu ar gyfer achosion posibl o COVID-19 wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae nifer y galwadau am ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu.
- Mae nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd mewn labordy ar gyfer Cymru gyfan a phositifedd profion yn parhau i gynyddu. Roedd positifedd sampl yn fwy nag 21% yn wythnos 50.
- Yn ystod wythnos 50, cynyddodd digwyddedd ym mhob grŵp oedran, gyda digwyddedd ar ei uchaf ymhlith pobl 18-44 mlwydd oed.
- Mae digwyddedd achosion a gadarnhawyd a phositifedd episodau profion wedi cynyddu yn holl ranbarthau byrddau iechyd Cymru.
- Ar lefel genedlaethol, gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty, o gymharu â'r wythnos flaenorol. Yn ogystal, cynyddodd nifer yr achosion a gadarnhawyd ymhlith cleifion mewnol yn yr ysbyty a'r nifer a dderbyniwyd i wardiau gofal critigol o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiau COVID-19 yng Nghymru yn parhau i gynyddu ac wedi'u gwasgaru'n eang yn ddaearyddol o hyd, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau o gynnydd yn gyffredinol yn nigwyddedd achosion a gadarnhawyd yn yr wythnosau diwethaf, yn dilyn gostyngiadau rhwng wythnosau 44 a 46.
- Mae niferoedd uchel o achosion lluosog yn parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau ysgol.
- Roedd cyfnod atal byr mewn grym ledled Cymru rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd. Roedd gostyngiad wedi bod ar ôl y cyfnod atal byr yn nigwyddedd achosion a gadarnhawyd, ond dros dro oedd hyn ac mae digwyddedd wedi parhau i gynyddu'r wythnos hon ac mae bellach ar ei lefel uchaf erioed.
- Mae cyfyngiadau ar waith ar hyn o bryd i gyfyngu ar oriau agor a gwerthiant alcohol ym maes lletygarwch.
- Bydd cyfyngiadau symud ledled Cymru yn dechrau ar 28 Rhagfyr am gyfnod cychwynnol o dair wythnos.
- Mae dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael [yma](#) ac mae'n cynnwys dadansoddiad ar gyfer awdurdodau lleol.

Defnydd ysbytai

- Mae'n bwysig nodi bod cyfanswm y gwelyau sydd ar gael mewn unedau gofal dwys wedi gostwng yn ystod yr wythnosau diwethaf gan fod Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn adrodd mewn modd mwy cyson o ran rhoi gwybod yn unig am y gwelyau sydd ar gael mewn unedau gofal dwys y gellir eu staffio.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd ysbytai ar gyfer COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 17 Rhagfyr).



- Mae'r Ffigur isod yn dangos defnydd unedau gofal dwys ar gyfer COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 17 Rhagfyr).




- Mae'r tabl isod yn manylu ar ddefnydd cyffredinol gwelyau unedau gofal dwys ar draws byrddau iechyd Cymru, gan gynnwys defnydd cyffredinol unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae'n bosibl eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn

seiliedig ar y ffaith bod 152 ar gael ledled Cymru). Mae nifer y cleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau neu a amheuir mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos ddiwethaf.


- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 199 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd effaith ar ofal cleifion.
- Mae defnydd ysbytai ac unedau gofal dwys ar gyfer COVID-19 wedi cynyddu dros yr wythnosau diwethaf. Ar 17 Rhagfyr 2020, nid oedd gofal 1:1 i bob claf mewn unedau gofal dwys yn bosibl yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, gyda defnydd unedau gofal dwys ar 119% ar gyfer gofal 1:1; gweler y tabl isod.

Health Board	Level 3 ICU occupancy (% of 1:1 ratio beds occupied)	Total L3 ICU Occupancy %	COVID19 Suspected patients	COVID19 Positive patients
ABUHB	78.3%	85.7%	0	11
BCUHB	119.2%	75.6%	0	9
CTMUHB	144.0%	100.0%	0	27
CVUHB	142.9%	100.0%	1	13
HDUHB	95.5%	95.5%	0	11
SBUHB	128.6%	92.3%	1	15
Wales	119.7%	91.5%	2	86


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Data ar 17 Rhagfyr 2020.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn dangos y cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra mae'r llinell lwyd wannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 17 Rhagfyr 2020.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn dangos y cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra mae'r llinell lwyd wannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 17 Rhagfyr 2020.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn dangos y cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra mae'r llinell lwyd wannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 17 Rhagfyr 2020.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Lle y bo hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

